

## GRUFFYDD, ROBERT (1753 - 1820), cerddor

**Enw:** Robert Gruffydd  
**Dyddiad geni:** 1753  
**Dyddiad marw:** 1820  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** cerddor  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Cerddoriaeth  
**Awdur:** Robert David Griffith

Ganwyd ym Mhencefn, Llanbeblig, Sir Gaernarfon. Adwaenid ef dan yr enw ' Cantwr Salmu,' am yr arferai fynd oddi amgylch yr eglwysi i ddysgu i'r bobl ganu salmau. Tystia [Owen Williams](#) o Fôn yn ei *Gamut* i'w allu cerddorol, a chredai iddo gyfansoddi amryw donau i *Brenhinol Ganiadau Seion* ([Owen Williams](#)). Efe a gyfansoddodd ' Difyrwch gwyr Caernarfon ' a ' Difyrwch gwyr y Gogledd ' (a geir yn y casgliadau tonau dan yr enw ' Trefdeyrn'). Ei anthemau oedd ' Mor hawddgar yw dy bebyll,' ' Arglwydd, clyw fy ngweddi,' ac ' Ein Tad, yr hwn sydd yn y nefoedd.' Bu farw 17 Awst 1820. Ar garreg ei fedd ceir: 'Underneath lieth the body of Robert Griffith, late singing-master of Llanbeblig.'

### Awdur

Robert David Griffith, (1877 - 1958)

### Ffynonellau

Edward Jones, *Rhestr gyda nodiadau byrion, o Enwogion Cymreig o 1700 i 1900* (1908)

M. O. Jones, *Bywgraffiaeth Cerddorion Cymreig* (1890)

*Llais Rhyddid*, 1916, 472

*Y Gwyddoniadur Cymreig* (1889–96) (dan John Williams, 'Ioan Rhagfyr')

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20734335](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

